

**CLIMATE, FAIRTRADE AND YOU**

CHOOSE THE WORLD YOU WANT

FAIRTRADE

# CYNLLUN GWERS GYNRADD
# DEWISIADAU A CHANLYNIADAU

Ar gyfer plant 7-11 oed, mae'r wers hon yn addysgu myfyrwyr sut mae gan eu gweithrediadau ganlyniadau byd-eang. Bydd y bobl ifanc yn dysgu bod ganddynt y pŵer i wneud gwahaniaeth drwy'r dewisiadau maent yn eu gwneud bob dydd.

## AMCANION DYSGU:

- Mae dysgwyr yn deall bod gan ein dewisiadau bob dydd ganlyniadau byd-eang
- Gall dysgwyr esbonio sut gallant wneud gwahaniaeth i bobl a lleoedd ym mhedwar ban byd

## BYDD ANGEN ARNOCH:

- 1 banana sydd â sticer marc MASNACH DEG, ac un heb sticer
- Y ffilm 'Newid y byd drwy eich dewisiadau'
- Cardiau cydweddu dewisiadau a chanlyniadau (1 set o gardiau rhwng 2)

## DYSGU BLAENOROL

Dylai fod gan fyfyrwyr ddealltwriaeth sylfaenol o Fasnach Deg a'i fanteision i ffermwyr a gweithwyr ym mhedwar ban byd. Mae'r gyfres ffilm Portread Teulu Masnach Deg yn cynnig cyflwyniad da i fanteision Masnach Deg.

## GWEITHGAREDD CYCHWYNNOL

Dylech ddechrau'r wers drwy gyflwyno dwy fanana - un sy'n cynnwys y marc MASNACH DEG ac un heb y marc. Gofynnwch i'r plant ddewis banana. Pa un y byddant yn ei ddewis? Pam? A oedd hwn yn ddewis hawdd? Meddwl, paru, rhannu gyda phartner. Rhannwch a thrafodwch ymatebion y plant.

Esboniwch y gall y dewis rhwng banana Masnach Deg a banana nad yw'n Fasnach Deg wneud gwahaniaeth mawr i fywydau ffermwyr bananas yn rhanbarthau'r byd sy'n tyfu bananas. Drwy ddewis y fanana Masnach Deg, rydych yn gwybod bod y ffermwr banana wnaeth dyfu'r fanana yn cael ei dalu'n deg. Mae'n anodd i ni wybod os cafodd y ffermwr wnaeth dyfu'r fanana nad yw'n Fasnach Deg ei dalu pris teg.

**Esboniwch wrth y plant fod gan ddewisiadau ganlyniadau. Drwy'r dewisiadau bychain maent yn eu gwneud bob dydd, gallant wneud gwahaniaeth MAWR yn y byd.**




**Gweithgaredd cychwynnol opsiynol**

Esboniwch i’r plant eu bod yn mynd i wylio clip byr i’w helpu i ddechrau meddwl am bŵer eu dewisiadau. Gwyliwch ‘’Newid y byd drwy eich dewisiadau <https://schools.fairtrade.org.uk/teaching-resources/change-the-world-through-your-choices/>.

## PRIF WEITHGAREDD

Bydd y prif weithgaredd hwn yn datblygu dealltwriaeth y myfyrwyr o ganlyniadau byd-eang eu dewisiadau bob dydd. Gall y gweithgaredd hwn gael ei gwblhau mewn parau neu’n unigol os oes angen.

- Esboniwch i’r plant bod y dewisiadau maent yn eu gwneud drwy gydol y dydd yn gallu effeithio ar bobl a lleoedd ym mhedwar ban byd. Rhowch set o gardiau cydweddu ‘dewisiadau a chanlyniadau’ i bob pâr.
- Gofynnwch i’r plant roi’r rhain ar y bwrdd wyneb i fyny
- Tasg y plant yw cydweddu dewis â chanlyniad
- Unwaith y bydd y plant wedi cydweddu’r cardiau, defnyddiwch y sbardunau isod i ddechrau trafodaeth

## SBARDUNAU AM DRAFODAETH

*Pwy yr effeithiwyd arnynt gan y dewisiadau hyn?*
*Pa wledydd yr effeithiwyd arnynt gan y dewisiadau hyn? Allwch chi ddod o hyd iddynt ar y map?*
*Allwch chi nodi’r dewisiadau a oedd yn ddewisiadau* ***prynu****?*
*Allwch chi nodi’r dewisiadau a wnaed* ***ar ôl*** *prynu’r cynnyrch?*

Pan fyddwch yn meddwl am yr hyn i’w fwyta, ei yfed, ei wisgo a’i brynu, mae gennych ddau ddewis pwysig i’w gwneud. *Pam* eich bod yn mynd i brynu? Beth rydych yn mynd i’w wneud gyda’r cynnyrch neu’r gwastraff *ar ôl* gorffen?

## ESTYNIAD

Bydd y gweithgaredd estynedig hwn yn annog y myfyrwyr i ystyried dewisiadau gwahanol a’r canlyniadau negyddol a allai godi o ganlyniad.

- Roedd y dewisiadau ar y cardiau hyn yn ddewisiadau a oedd yn cael **canlyniadau cadarnhaol.** Gofynnwch i’r plant edrych ar y cardiau dewis eto ac ystyried dewis gwahanol a allai gael canlyniadau negyddol e.e. Yn lle dewis ailgylchu eich sbwriel, efallai eich bod yn ei roi mewn bin arferol. Nodwch y rhain ar gefn y cardiau dewis.





- Beth yw canlyniadau negyddol y dewisiadau hyn? Gofynnwch i'r plant nodi canlyniadau negyddol y dewisiadau hyn? Gofynnwch i'r plant nodi effaith negyddol posib y dewisiadau gwahanol hyn ar gefn y cardiau canlyniadau.

## SESIWN LAWN

Drwy'r wers, mae'r myfyrwyr wedi dysgu y gallant wneud newidiadau cadarnhaol yn y byd drwy eu dewisiadau. Fel dosbarth, dylech gytuno ar un neu'r holl ddatganiadau canlynol:

1 dewis y gall ein hysgol ei wneud er mwyn gwneud newid cadarnhaol yn y byd
1dewis y gall ein dosbarth ei wneud er mwyn gwneud newid cadarnhaol yn y byd
1 dewis y gallaf i ei wneud er mwyn gwneud newid cadarnhaol yn y byd

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Gall y dolenni hyn gael eu defnyddio i archwilio'r materion a godwyd yn y wers hon.

**Dewiswch yr hyn i'w wneud gyda'ch sbwriel**

What should I do with my rubbish? - KS2 Science - BBC Bitesize

Sustainability and plastics - BBC Bitesize

Recycling: What can you recycle in your food shop? - CBBC Newsround

**Dewiswch fananas Masnach Deg**

Make Bananas Fair | Fairtrade Schools

Pablo the Super-Banana (for early years groups) | Fairtrade Schools

**Dewiswch wisg ysgol sydd wedi'i gwneud o gotwm Masnach Deg**

Unravelling the Thread: The Story of Cotton | Fairtrade Schools

Koolskools – Koolskools

**dewiswch bobi gan ddefnyddio cynhwysion Masnach Deg**

Bake A Difference With Gingerbread | Fairtrade Schools

**Dewiswch flodau Masnach Deg**

Fairtrade Flowers comprehension activity | Fairtrade Schools